Ombwdsmon Ombudsman
Cymru · Wales

# A ydym yn gofalu am ein gofalwyr? Ailymweld






**Adroddiad dilynol ar y cynnydd a wnaed i weinyddiad asesiadau o anghenion gofalwyr yn awdurdodau lleol Cymru ers ymchwiliad "Ar ei Liwt ei Hun" OGCC yn 2024**

ombwdsmon.cymru

## Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei Ddeall.

Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â ni:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

E-bost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

# Cynnwys


Rhagair ... 3

Cyflwyniad ... 6

Dadansoddiad ... 9

- Gwybodaeth well ... 9
- Asesiadau gwell o anghenion gofalwyr ... 10
- Gwybodaeth ac adolygiadau ôl-asesu gwell ... 11
- Hyfforddiant ... 14
- Monitro gwell ... 16
- Cydweithrediad ... 18

Yr awdurdodau nad ymchwiliwyd iddynt a chyrff eraill ... 21

Sylwadau ar yr adroddiad drafft ... 29

Casgliadau ... 30

Argymhellion pellach ... 33

Atodiad 1 ... 36

Data gan yr awdurdodau nad ymchwiliwyd iddynt ... 36

Tabl 1 – Data poblogaeth o Gyfrifiad 2021 ... 36

Tabl 2 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ... 38

Tabl 3 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ... 39

Tabl 4 – Cyngor Caerdydd ... 40

Tabl 5 - Cyngor Sir Caerfyrddin ... 41

Table 6 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy .............................................. 42

Tabl 7 – Cyngor Gwynedd ........................................................................ 43

Tabl 8 – Cyngor Sir Dinbych ..................................................................... 44

Tabl 9 – Cyngor Sir Ynys Môn ................................................................... 45

Tabl 10 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ...................................... 46

Tabl 11 – Cyngor Sir Fynwy ....................................................................... 47

Tabl 12 – Cyngor Dinas Casnewydd ........................................................... 48

Tabl 13 – Cyngor Sir Penfro ...................................................................... 49

Tabl 14 – Cyngor Sir Powys ....................................................................... 50

Tabl 15 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ............................... 51

Tabl 16 – Cyngor Abertawe ....................................................................... 52

Tabl 17 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ................................................ 53

Tabl 18 – Cyngor Bro Morgannwg ............................................................. 54

Tabl 19 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ............................................. 55

## Rhagair

Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ("Deddf OGCC 2019") yn rhoi'r pŵer imi i gynnal ymchwiliadau "Ar ei Liwt ei Hun" os oes tystiolaeth sy'n awgrymu bod methiant gwasanaeth systemig neu gamweinyddu. Mae hyn yn golygu y gallaf ymchwilio i fater y tu hwnt i'w effaith ar unigolyn a heb orfod aros tan i fy swyddfa gael cwyn.

Ym mis Hydref 2024, cyhoeddais fy adroddiad ymchwilio ar ei liwt ei hun eang cyntaf o'r fath fel Ombwdsmon, A ydym yn gofalu am ein gofalwyr?. Dewisais ymchwilio i'r pwnc hwn oherwydd er bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cryfhau hawliau gofalwyr, roedd tystiolaeth yn awgrymu nad oedd gofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau nac o'r cymorth sydd ar gael iddynt. Roedd yr ymchwiliad yn edrych ar 4 awdurdod lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Castell-nedd Port Talbot ("yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt"). Canfu'r ymchwiliad enghreifftiau o ymarfer da ym mhob un o'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd Iddynt. Fodd bynnag, nodais feysydd i'w gwella a oedd yn ymwneud â sut yr oedd yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt yn canfod ac yn diwallu anghenion gofalwyr di-dâl.

Yn seiliedig ar ein canfyddiadau gwnaed nifer o argymhellion, a chytunodd yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt eu gweithredu. Hefyd, gwahoddais y 18 awdurdod arall nad ymchwiliwyd iddynt yng Nghymru i ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion, ac i nodi unrhyw bwyntiau dysgu i'w gweithredu a fyddai'n gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Flwyddyn yn ddiweddarach, mae'n briodol cyhoeddi adroddiad dilynol, i rannu'r cynnydd a nodwyd gennyf yn narpariaeth asesiadau o anghenion gofalwyr ac i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu hysbysu o'u hawliau ac o'r cymorth sydd ar gael iddynt. Ers cyhoeddi'r adroddiad ymchwilio, mae fy swyddfa wedi monitro sut mae'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt wedi bod yn cydymffurfio â'r argymhellion. Rwyf hefyd wedi casglu gwybodaeth am effaith yr ymchwiliad mewn awdurdodau lleol eraill ledled Cymru.

Nid oes amheuaeth nad yw rôl gofalwyr di-dâl yn hanfodol i gynnal gofal cymdeithasol yng Nghymru. Er bod pob un o'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd Iddynt wedi cymryd camau positif, mae angen i bob awdurdod lleol yng Nghymru barhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod gofalwyr yn cael eu hysbysu o'u hawliau a'u bod yn gallu cael gwybodaeth, cyngor neu gymorth priodol i'w galluogi i barhau â'u rôl fel gofalwyr, os mai dyna yw eu dymuniad.

Hoffwn ddiolch i'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd Iddynt am gydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r argymhellion. Fodd bynnag, mae'n siomedig mai dim ond Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd wedi gweithredu'r holl argymhellion yn llawn hyd yma. Oherwydd hyn, rwyf yn cyhoeddi'r adroddiad hwn fel Adroddiad Arbennig o dan adran 28 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019. Mae gennyf ragor o argymhellion i Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir y Fflint ac rwyf yn pwyso ar yr awdurdodau hyn i wneud y newidiadau angenrheidiol i gydymffurfio â'r argymhellion.

Hoffwn hefyd ganmol yr awdurdodau nad ymchwiliwyd iddynt sydd wedi nodi a gweithredu ers cyhoeddi'r adroddiad ac sydd wedi cyflwyno gwybodaeth a data i fy swyddfa sy'n dangos y gwaith maent wedi'i wneud yn y maes. Mae'r camau a gymerwyd ganddynt yn cyd-fynd ag ysbryd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019 ac yn unol ag argymhellion diweddar Pwyllgor Cyllid y Senedd yn dilyn Adolygiad Ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019[1]. Mae'r enghreifftiau o weithredu positif yr oeddent wedi'u rhannu â fy swyddfa'n dangos yr effaith a'r dysgu ehangach sylweddol a ddeilliodd o'r ymchwiliad, yn ychwanegol at y 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd Iddynt.

Michelle Morris 18 Chwefror 2026

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus I**

**Public Services Ombudsman**

[1] Adolygiad Ôl-ddeddfwriaethol y Senedd o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019

## Cyflwyniad

1. Diben yr adroddiad A ydym yn gofalu am ein gofalwyr? oedd rhannu canfyddiadau ail ymchwiliad "Ar ei Liwt ein Hun" fy swyddfa. Roedd yr ymchwiliad wedi edrych ar bedwar awdurdod lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Castell-nedd Port Talbot ("yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt"). Roedd yr ymchwiliad yn ystyried:

   a) A oedd yr awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i Chod Ymarfer a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015.

   b) A oedd y sawl sy'n gymwys i gael asesiadau o anghenion yn cael eu hysbysu o, ac yn deall eu hawl i ofyn am asesiad o anghenion gofalwyr.

   c) Lle'r oedd asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu comisiynu, a oedd y gwasanaethau asesu hynny'n cael eu cael eu darparu'n briodol ac a oedd awdurdodau lleol yn monitro'r trefniadau contractio'n briodol.

   d) A oedd asesiadau o anghenion gofalwyr, gan gynnwys rhai a gwblhawyd gan ddarparwyr gwasanaethau a gomisiynir, yn cael eu cynnal yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

2. Gwelais dystiolaeth o ymarfer da ym mhob un o'r 4 Awdurdod yr Ymchwiliwyd Iddynt yn y ffordd roeddent yn gweinyddu asesiadau o anghenion gofalwyr. Er enghraifft, yn y dystiolaeth a gasglwyd, pan oedd gofalwyr wedi'u canfod ac yn cael cynnig asesiad, roedd yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt a'u darparwyr gwasanaeth a gomisiynir yn cynnal asesiadau cymesur, gydag amrywiaeth o ddatrysiadau creadigol a hyblyg yn cael eu cynnig.

3. Fodd bynnag, nodais sawl maes lle mae angen gwelliant i sicrhau bod yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'i Chod Ymarfer a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015. Dangosodd y dystiolaeth mai cyfran fechan yn unig o anghenion y boblogaeth gofalwyr ym mhob Awdurdod yr Ymchwiliwyd Iddynt oedd yn cael eu hasesu a bod angen gwella sut yr eir ati i ganfod gofalwyr i'w helpu yn eu rôl fel gofalwyr, fel na fyddant mewn argyfwng cyn gofyn i'r awdurdod lleol am gymorth. Nid rôl i awdurdodau lleol yn unig yw canfod gofalwyr; mae gan wasanaethau iechyd hefyd rôl i'w chwarae ac mae angen cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol.

4. Canfu'r ymchwiliad nad oedd digon o wybodaeth glir ar gael am y broses o asesu anghenion gofalwyr. Hefyd, nid oedd rhai gofalwyr yn cael eu hysbysu'n ddigonol am eu hawliau. Argymhellais hefyd welliannau yn y ffordd mae asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu cofnodi.

5. Hefyd, dangosodd yr ymchwiliad gyfleoedd i wella sut mae data cydraddoldeb yn cael eu cofnodi ac mi allai hynny wella sut mae

awdurdodau lleol yn canfod grwpiau o ofalwyr nad ydynt yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd ac i sicrhau nad ydynt dan anfantais. Nodwyd cyfleoedd i fonitro ansawdd a chysondeb asesiadau o anghenion gofalwyr yn well.

## Dadansoddiad

6. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ymchwilio ym mis Hydref 2024, cafodd cynllun gwireddu buddion ei lunio. Roedd y cynllun yn disgrifio amrywiaeth o fuddion a ragwelid yn sgil yr ymchwiliad a ffyrdd o ddangos canlyniadau, pe bai pob budd yn cael ei wireddu. Rhoddir crynodeb isod o'r sefyllfa bresennol yn gysylltiedig â'r meysydd lle rhagwelir y gallai canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad ymchwilio effeithio arnynt:

- **Gwybodaeth well**

7. Roedd yr ymchwiliad wedi argymell bod pob Awdurdod yr Ymchwiliwyd Iddo'n cynhyrchu taflen ffeithiau a oedd yn cynnwys:

- manylion am y broses asesu anghenion gofalwyr
- rôl darparwyr gwasanaeth a gomisiynir (pan yn gymwys)
- yr hyn y gall gofalwyr ei ddisgwyl o'r asesiad
- enghreifftiau bywyd go iawn o sut mae gofalwyr wedi cael eu helpu.

8. Ers hynny mae pob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt naill ai wedi datblygu taflen ffeithiau neu wedi gwella'r daflen ffeithiau a oedd ganddynt eisoes. Mae'r rhain ar gael yn Gymraeg, mewn ieithoedd eraill ac mewn fformat 'Hawdd ei Ddarllen' (wedi'i seilio ar luniau), yn ôl y gofyn. Dylai hyn sicrhau bod gofalwyr yn cael gwybodaeth i'w helpu i ddeall y broses asesu, beth i'w ddisgwyl o'r broses ac i'w helpu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth a fyddai asesiad o anghenion gofalwyr o fudd iddynt.

- **Asesiadau gwell o anghenion gofalwyr**

9. Canfu'r ymchwiliad feysydd y gellid eu gwella yn y ffurflenni asesu anghenion gofalwyr ar gyfer asesiadau oedolion a gofalwyr ifanc. Ni ddylai'r asesiad o anghenion gofalwyr fod yn broses o ofyn cwestiynau ar ffurflen yn unig. Fodd bynnag, bydd cael y cwestiynau angenrheidiol ar y ffurflen asesu'n helpu i lywio'r ymarferydd ac i sicrhau eu bod yn casglu'r wybodaeth angenrheidiol i ganfod unrhyw anghenion a chymorth sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion rheini.

10. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi diweddaru ei ffurflen asesu anghenion oedolion sy'n ofalwyr yn briodol. Fodd bynnag, mae ei ffurflen i asesu gofalwyr ifanc yn dal i gael ei diweddaru. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili bod y ddogfen hon yn destun ymgynghori, ar lefel ranbarthol, a bod disgwyl iddi gael ei threialu ddechrau Tachwedd 2025. Dywedodd y Cyngor ei fod, yn y cyfamser, wedi hysbysu ei staff o argymhellion yr ymchwiliad i sicrhau eu bod yn cofnodi'r wybodaeth angenrheidiol tra'r oedd y ffurflen yn cael ei hadolygu. Rwyf yn sylweddoli y gall gymryd amser i gytuno ar newidiadau ar lefel ehangach, ranbarthol. Rwyf yn falch hefyd bod y broses benderfynu ranbarthol hon yn rhoi sylw i ganfyddiadau'r ymchwiliad. Fodd bynnag, roeddwn yn bryderus nad oedd yr argymhelliad hwn wedi'i gyflawni ac roeddwn yn falch o dderbyn diweddariad pellach mewn perthynas â hyn mewn ymateb i fersiwn ddrafft o'r adroddiad hwn (gweler paragraff 49).

11. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn y broses o newid ei system rheoli achosion ac, felly, nid yw eto wedi cyflawni'r argymhelliad hwn yn achos ei asesiadau o anghenion oedolion sy'n ofalwyr. Dywedodd ei fod yn ymgorffori'r argymhellion yn natblygiad y broses gofalwyr

yn y system newydd. Fodd bynnag, ni allai ddangos tystiolaeth o hyn, ar hyn o bryd, ac mae gweithredu'r system newydd wedi'i ohirio tan ddechrau 2026. Roedd y Cyngor, fodd bynnag, yn gallu dangos copi o'i ffurflen newydd i asesu anghenion gofalwyr ifanc a oedd wedi'i mabwysiadu gan ei ddarparwr gwasanaeth a gomisiynir. Roedd hyn yn ymgorffori'r rhan fwyaf o argymhellion yr ymchwiliad, gyda chwestiynau ychwanegol yn dal heb eu hychwanegu, er enghraifft, a oedd y gofalwyr yn barod ac yn alluog i ddarparu gofal. Er nad yw'r argymhelliad wedi'i weithredu'n llawn, rwyf yn derbyn ei bod yn briodol i'r Cyngor ymgorffori'r newid hwn yn ei system rheoli achosion newydd. Felly, mae fy argymhelliad ychwanegol yn yr adroddiad hwn yn rhoi cyfle arall i'r Cyngor i weithredu'r newid hwn.

12. Mae Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Castell-nedd Port Talbot wedi newid eu ffurflenni asesu gofalwyr ifanc ac oedolion yn briodol.

13. Bydd y ffurflenni asesu newydd ar gyfer gofalwyr ifanc yng Nghyngor Sir Ceredigion a Chyngor Castell-nedd Port Talbot hefyd yn gwella sut mae asesiadau gofalwyr ifanc yn cael eu cofnodi, rhywbeth a welwyd a oedd yn absennol yn ystod yr ymchwiliad.

- **Gwybodaeth ac adolygiadau ôl-asesu gwell**

14. Canfu'r ymchwiliad y gellid gwneud gwelliannau i'r wybodaeth a ddarperir i ofalwyr ar ôl eu hasesiad o anghenion, i helpu gofalwyr i ddeall ac i weithio'u ffordd drwy'r prosesau asesu. Roedd hyn yn cynnwys rhoi llythyr eglurhaol i ofalwyr, i gyd-fynd â'u copi o'u hasesiad, a oedd yn nodi'r canlyniadau ac yn cynnwys gwybodaeth, fel sut y

gallant ofyn am adolygiad neu ailasesiad. Rwyf yn siomedig nad yw'r holl Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt wedi gweithredu'r argymhelliad hwn yn llawn. Mae pob un o'r 4 corff wedi datblygu llythyr eglurhaol. Dim ond llythyrau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Castell-nedd Port Talbot sy'n cynnwys yr holl wybodaeth a oedd wedi'i hargymell. Mae gwybodaeth ar goll yn y llythyrau a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir y Fflint. Er enghraifft, nid yw'r naill enghraifft na'r llall yn cynnwys crynodeb o ganlyniad yr asesiad, ac nid yw llythyr Cyngor Sir Ceredigion yn egluro'r trefniadau ar gyfer adolygiad, neu os bydd angen ailasesiad yn y dyfodol. Rwyf, felly, wedi gwneud rhagor o argymhellion i'r awdurdodau lleol hyn i weithredu'r argymhelliad hwn yn llawn, er budd gofalwyr di-dâl.

15. Gwnaeth yr ymchwiliad argymhelliad y dylai'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt adolygu a mabwysiadu dull i edrych eto ar y defnydd o Daliadau Uniongyrchol i ofalwyr, i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y gofalwr (ac eithrio Cyngor Castell-nedd Port Talbot). Mae Taliadau Uniongyrchol yn arian a delir gan yr awdurdod lleol i unigolyn a aseswyd fel rhywun sydd angen cymorth, fel y gallant dalu am eu cymorth eu hunain yn hytrach na bod yr awdurdod lleol yn ei ddarparu ar eu cyfer.

16. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi adolygu ei bolisi ar Daliadau Uniongyrchol, gan benderfynu ei fod yn briodol. Roedd hyn eisoes yn cynnwys manylion ar gynorthwyo unigolion i gynllunio ar gyfer adegau pan fydd eu trefniadau Taliadau Uniongyrchol yn chwalu ac nad oedd cyfrifoldeb y Cyngor i ddarparu neu drefnu gwasanaethau os nad oedd gofalwr yn gallu sicrhau gwasanaethau drwy eu trefniadau eu hunain. Roedd hefyd yn cynnwys ystyried

opsiynau arloesol a chreadigol, gan weithio â'i gilydd i ystyried pob datrysiad posibl i ddatrys unrhyw wendidau a ganfuwyd, gan sicrhau bod unigolion yn deall bod modd iddynt ofyn am adolygiad heb ei gynllunio os yw amgylchiadau'n mynnu hynny. Mae Tîm Taliadau Uniongyrchol y Cyngor wedi cynnal ymweliadau tîm a sesiynau cynefino i helpu ymarferwyr i ddeall y broses Taliadau Uniongyrchol ac mae e-ddysgu gorfodol ar gael. Mae hefyd wedi diweddaru ei ganllawiau Taliadau Uniongyrchol, sy'n cynnwys yr hyn fydd yn digwydd os bydd rhywun yn penderfynu nad yw Taliadau Uniongyrchol yn briodol iddynt.

17. O ganlyniad i'r ymchwiliad a'i argymhellion, mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod bod adolygiadau heb eu cwblhau yn achos defnyddwyr gwasanaeth â chynllun gofal a chymorth, a oedd yn cynnwys gofalwyr sy'n cael Taliadau Uniongyrchol. I roi sylw i hyn, mae wedi rhoi prosiect ar waith, sy'n defnyddio 6 Gweithiwr Cymdeithasol newydd gymhwyso, i ganolbwyntio ar gynnal yr adolygiadau, i benderfynu a yw anghenion yr unigolion, gan gynnwys gofalwyr, yn cael eu diwallu'n briodol ac a yw eu canlyniadau'n cael eu cyflawni. Cychwynnodd y prosiect hwn ym mis Medi 2025.

18. Mae Tîm Taliadau Uniongyrchol Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu ffurflen adolygu newydd i gofnodi gwybodaeth am adolygiadau'n fwy effeithiol. Dywedodd ei fod hefyd yn cynnig ystod o opsiynau seibiant, gan gynnwys opsiynau sy'n bwrpasol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

- **Hyfforddiant**

19. Argymhellodd yr ymchwiliad fod yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt yn darparu hyfforddiant i'w staff. Roedd hyn yn cynnwys Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ("IAA") / staff Gwaith Cymdeithasol (ac eithrio staff IAA yng Nghyngor Sir Ceredigion), a hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff ehangach y cyngor.

20. Roeddwn yn falch o weld tystiolaeth o nifer o gamau a gymerwyd gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt i ddarparu hyfforddiant i, ac i godi ymwybyddiaeth ymhlith eu staff. Rhoddir enghreifftiau isod o bob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt:

- Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gwahodd ei staff i hyfforddiant "Ymwybyddiaeth o Ofalwyr" a ddarparwyd gan Gofalwyr Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, ac a oedd yn cynnwys arferion da, awgrymiadau ymarferol a dyletswyddau perthnasol wrth weithio â, ac i helpu gofalwyr di-dâl, a gweminar ar gydnabod ac asesu gofalwyr. Mae hefyd wedi bod yn datblygu rhaglen ddysgu newydd, a gychwynnodd ym mis Hydref 2025 fel gweminar a chwrs diweddaru ar-lein, sy'n cynnwys gwybodaeth o beth yw gofalwr, hawliau gofalwyr a sut i atgyfeirio ar gyfer asesiadau gofalwyr. Bu hefyd yn adolygu'r wybodaeth sydd ar gael i staff am ofalwyr a chodwyd ymwybyddiaeth ymhlith staff yn ystod digwyddiadau fel Diwrnod Hawliau Gofalwyr ac Wythnos Gofalwyr.

- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn awr yn darparu sesiynau hyfforddi misol ar hawliau gofalwyr ac ar gynorthwyo gofalwyr di-dâl. Mae ganddo fynediad hefyd at ei fodiwl e-ddysgu

"Ymwybyddiaeth o Ofal" ei hun, sy'n cynnwys dealltwriaeth o hyrwyddo hawliau gofalwyr di-dâl a chanfod gofalwyr. Mae hefyd wedi sicrhau arian ar gyfer prosiect i gofnodi profiadau gofalwyr di-dâl ar ffilm a defnyddiwyd y rhain i ddatblygu hyfforddiant ar asesiadau o anghenion gofalwyr yn ystod 2025. Dechreuodd yr hyfforddiant hwn ym mis Medi 2025 ac mae'n cynnwys sut i gwblhau asesiad gofalwyr, egwyddorion asesu allweddol a pha sgiliau, nodweddion a chyfrifoldebau sy'n hanfodol i rôl asesydd i ddiwallu anghenion y gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal.

- Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot ei fod wedi cynnig amrywiaeth o hyfforddiant a dywedodd fod yr holl staff perthnasol wedi'u hyfforddi. Dangosodd gopïau o sleidiau hyfforddiant, fel enghraifft, a oedd yn dangos beth yw gofalwr di-dâl, buddiannau canfod gofalwyr di-dâl, heriau a brofir gan ofalwyr, y cymorth sydd ar gael a ffyrdd o helpu gofalwyr. Dangosodd dystiolaeth hefyd o hyfforddiant a gyflwynwyd ym mis Medi 2025 ar asesu anghenion gofalwyr, rhwystrau rhag canfod gofalwyr, hawliau gofalwyr i gael eu hasesu, cyfathrebu cydweithredol, deall canlyniadau ac adolygu cynnydd. Dangosodd y Cyngor dystiolaeth hefyd ei fod wedi rhannu modiwl e-ddysgu â staff ehangach ar gydnabod a chynorthwyo gofalwyr ac mae yn y broses o ystyried a ddylai hyn fod yn orfodol i holl staff y Cyngor.

- Mae Cyngor Sir y Fflint wedi darparu hyfforddiant i staff perthnasol. Mae wedi cynhyrchu sleidiau hyfforddiant yn benodol ar asesu anghenion gofalwyr, gan gynnwys y broses,

canlyniadau a datrysiadau. Mae hyfforddiant chwarterol ar Daliadau Uniongyrchol hefyd yn cael ei ddarparu, ac mae wedi hyrwyddo adnoddau ac e-ddysgu Gofalwyr Cymru. Hefyd, mae'r Cyngor wedi bod yn hyrwyddo agoriad canolfan newydd ar gyfer ei ddarparwr gwasanaethau a gomisiynir, Diwrnod Hawliau Gofalwyr ac Wythnos Gofalwyr, gan gynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau a gynhaliwyd ac adnoddau sydd ar gael. Mae wedi datblygu sesiynau briffio "Toolbox Talk", i gynorthwyo aelodau'r Cyngor sydd heb ddefnydd o gyfrifiadur fel rhan o'u rôl, i wella'u gwybodaeth am hawliau gofalwyr a'r cymorth sydd ar gael. Dywedodd y Cyngor hefyd fod gan ei ddarparwr gwasanaethau a gomisiynir raglen o hyfforddiant, a dangoswyd tystiolaeth o hyfforddiant a ddarparwyd mewn ysgolion yn gysylltiedig â gofalwyr ifanc.

- **Monitro gwell**

21. Canfu'r ymchwiliad feysydd i'w gwella yn y ffordd roedd yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt yn archwilio asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd i sicrhau ansawdd (ac eithrio Cyngor Sir y Fflint).

22. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei fod o'r farn bod ganddo broses awdurdodi gadarn ar waith ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr a phroses archwilio wedi'i sefydlu ym mhob adran, ac y byddai'r pwyslais yn newid, yn ôl themâu neu anghenion penodol a ganfuwyd. Roedd yn gallu rhannu cynllun archwilio ansawdd asesiadau gofalwr, a oedd yn cynnwys hapsamplau o asesiadau am gyfnod o 6 mis, i werthuso ansawdd a chysondeb asesiadau gofalwyr.

23. Cadarnhaodd Cyngor Sir Ceredigion ei fod wedi cyflogi swyddog Sicrhau Ansawdd newydd a bod amserlen ar waith i drefnu archwiliadau. Cyflwynodd gopi o'i fframwaith Sicrhau Ansawdd a chadarnhaodd fod archwiliadau chwarterol yn cael eu cynnal, gan gymryd sampl o'r holl atgyfeiriadau agored yn ystod y chwarter, sy'n cynnwys rhoi sylw i anghenion gofalwyr. Dangosodd hefyd gopi o dempled archwilio ar gyfer asesiadau pobl ifanc, a gynhaliwyd gan ei ddarparwr gwasanaethau a gomisiynir, ac mae sampl o asesiadau 4 gofalwr ifanc yn cael eu hystyried bob chwarter.

24. Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi ailgyflwyno rhaglen archwilio a ohiriwyd yn 2022. Mae hon yn rhaglen o archwiliadau chwe-misol ac roedd yn gallu dangos tystiolaeth o archwiliadau a gynhaliwyd yn benodol i asesu anghenion gofalwyr ym mis Medi 2025.

25. Canfu'r ymchwiliad hefyd y gallai'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt wella'r wybodaeth am gydraddoldeb a gofnodir ganddynt yn achos gofalwyr. Mae hyn yn bwysig i alluogi'r awdurdodau i ganfod tueddiadau a grwpiau penodol o unigolion a allai brofi rhwystrau ac nad ydynt yn ymwybodol o'u hawliau. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau nad yw unrhyw grŵp o'r fath dan anfantais. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn am newidiadau i ofynion adrodd data'r cyfrifiad sy'n cynnwys data cydraddoldeb ar ofalwyr.

26. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei fod yn canolbwyntio ar sicrhau fod ei system TG newydd, a ddaw'n weithredol yn 2026, wedi'i galluogi i adrodd yn effeithiol ar ddata cydraddoldeb yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae'r fersiwn wedi'i diweddaru o'i ffurflen asesu anghenion gofalwyr yn awr yn cynnwys casglu data cydraddoldeb fel ethnigrwydd, rhywedd, dewis iaith ac anabledd.

27. Mae Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn y broses o weithredu system TG rheoli achosion newydd. Dywedodd fod cofnodi data cydraddoldeb wedi'i ystyried yn natblygiad y system newydd a'i fod yn gallu darparu sgrinliniau o'i system newydd sy'n dangos ei fod yn cofnodi'r data cydraddoldeb priodol y dylid adrodd arno.

28. Yn achos Cyngor Sir y Fflint, roedd yr argymhelliad hwn yn golygu mai'r unig beth oedd ei angen ganddo oedd adrodd data cydraddoldeb ar gyfer gofalwyr yr oedd eu hanghenion wedi'u hasesu, y gofynnwyd amdano yn ystod yr ymchwiliad, ond nad oedd wedi'u darparu. Roedd wedi cyflwyno'r wybodaeth ofynnol am 2021/2022 a 2022/2023, i ddangos bod ganddo brosesau priodol ar waith eisoes ac, felly, nid oedd angen cynllun gweithredu pellach.

29. Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi rhoi system TG rheoli achosion newydd ar waith. Roedd gweithredu'r system wedi cynnwys ystyried argymhellion yr ymchwiliad, gan gynnwys cofnodi data cydraddoldeb. Mae'r system yn caniatáu cofnodi gwybodaeth fel oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, hil, crefydd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'n gweithio ar hyn o bryd ar system adrodd a fyddai'n cofnodi'r holl ddata dan sylw.

- **Cydweithrediad**

30. Nid yr awdurdod lleol yn unig sy'n gyfrifol am ganfod a chynorthwyo gofalwyr di-dâl. Roedd yr ymchwiliad yn cydnabod pwysigrwydd cydweithredu ac yn argymell bod gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt gynlluniau ar waith i weithio â gwasanaethau iechyd. Roedd pob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt yn

cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd a dangoswyd tystiolaeth o'r prosesau sydd ar waith ganddynt:

- Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynllun strategol a gweithredol ar waith eisoes ac a oedd wedi'i sefydlu ers gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r cynllun ardal rhanbarthol am 2023 – 2028 yn cynnwys nifer o gamau i wireddu gweithio integredig, hybu arferion da a chefnogi ffyrdd o ganfod a chynnig cymorth i ofalwyr di-dâl. Mae'r Cyngor hefyd yn mynychu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Amlasiantaethol, lle mae'r Bwrdd Iechyd lleol hefyd yn bresennol. Mae trafodaethau wedi cynnwys prosiect peilot ar gyfer rhyddhau o ysbytai a hybiau mewn ysbytai. Dangosodd y Cyngor hefyd ragor o dystiolaeth o'r cynllun peilot mewngymorth mewn ysbytai a sefydlwyd ym mis Ionawr 2025 am gyfnod o 10 wythnos, i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr, i sicrhau mynediad amserol at wybodaeth ac asesiadau gofalwyr yn brydlon. Arweiniodd hyn at 24 o ofalwyr yn derbyn asesiadau, ynghyd â darparu cymorth ymarferol ac atal rhyddhau anniogel. Yn anffodus, mae'r cyllid ar gyfer y prosiect hwn wedi dod i ben. Fodd bynnag, mae cais wedi'i wneud am ragor o arian.

- Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion ei fod o'r farn ei fod wedi sefydlu trefniadau cydweithredu'n dda â gwasanaethau iechyd ond mae wedi adolygu hyn, yn sgil canfyddiadau'r ymchwiliad. Bu'r Cyngor yn trafod y canfyddiadau yn Grŵp Datblygu Gofalwyr De Orllewin Cymru. Datblygodd boster, a oedd yn codi

ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr a phwy i gysylltu â hwy, a chafodd hwn ei ddosbarthu i holl safleoedd iechyd y rhanbarth. Roedd adroddiad blynyddol Grŵp Datblygu Gofalwyr De Orllewin Cymru ar gyfer 2024/2025, hefyd yn manylu ar flaenoriaethau'r strategaeth gofalwyr gan gynnwys canfod a hunan ganfod gofalwyr yn gynnar, ynghyd â'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael. Roedd yn cynnwys manylion am y cynnydd yn nifer y gofalwyr newydd sy'n oedolion sy'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau gwybodaeth, cynnydd yn yr ymweliadau â gwefan gofalwyr y rhanbarth, cynnydd yn nifer y gofalwyr sy'n cael help gan wasanaethau cymorth rhyddhau gofalwyr, a chynnydd yn y gofalwyr ifanc sy'n cael cymorth gan wasanaethau gwybodaeth gofalwyr. Mae hefyd yn nodi camau a gymerwyd, fel atgyfeiriadau gan bractisau meddygon teulu at wasanaethau cymorth i ofalwyr yn lleol, stondinau gwybodaeth a gwasanaethau rhyddhau o ysbytai i ofalwyr.

- Bu Cyngor Sir y Fflint yn cydweithio â chydweithwyr o'i Fwrdd Iechyd lleol i ail-gomisiynu ei wasanaethau gofalwyr di-dâl. Mae ganddo Grŵp Strategaeth Gofalwyr, sy'n cynnwys mabwysiadu dull o weithio sy'n seiliedig ar bartneriaeth, ac mae wedi gweithio i gynyddu presenoldeb, gan gynnwys cynrychiolaeth o wasanaethau iechyd, fel ysbytai, meddygfeydd Meddygon Teulu a fferyllfeydd. Cyflwynodd y Cyngor dystiolaeth o hwylusydd rhyddhau o ysbytai, a ddarperir gan ei ddarparwr gwasanaethau a gomisiynir. Mae'r Cyngor hefyd yn mynychu Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru sy'n cydlynu strategaeth ranbarthol a chynlluniau ar gyfer gofalwyr yng Ngogledd Cymru.

- Cafwyd tystiolaeth gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot o

brosiect peilot â fferyllwyr, sy’n cael ei gyflwyno i bractisau Meddygon Teulu, a chynllun arall i ymgysylltu ag optometryddion, fel y cam nesaf. Cafwyd manylion ganddo hefyd am Ffrwd Waith Partneriaeth Ranbarthol sy’n ystyried gwelliannau mewn gwybodaeth, cyngor, cymorth ac ymwybyddiaeth, sy’n cynnwys awdurdodau lleol a rhanbarthol a’r Bwrdd Iechyd lleol. Mae wedi cyfeirio at bwyslais ar ysbytai ac roedd yn cynnwys datblygu posteri a thaflenni gwybodaeth.


## Yr awdurdodau nad ymchwiliwyd iddynt a chyrff eraill

31. Rhennais ein hadroddiad ymchwilio â phob un o’r 18 awdurdod arall nad ymchwiliwyd iddynt, i rannu’r arferion da a amlygwyd ac i’w galluogi hwy i fyfyrio ar y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, yn dilyn yr argymhellion a wnaed i’r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt.

32. Gofynnais hefyd am ddata gan bob un o’r 18 awdurdod lleol yng Nghymru nad ymchwiliwyd iddynt, gan gynnwys nifer yr asesiadau gofalwyr sy’n oedolion a gofalwyr ifanc a gynhaliwyd yn y blynyddoedd 2021/2022, 2022/2023 a 2023/2024. Ceir dadansoddiad o’r data yn yr Atodiad.

33. Canfu’r ymchwiliad fod rhwng 10% a 12% o’r boblogaeth (5 a hŷn) yn yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt yn gweld eu hunain fel gofalwr, yng nghyfrifiad 2021. O’r unigolion hyn, dim ond 2.8% oedd wedi cael asesu eu hanghenion a dim ond 1.5% o’r boblogaeth gofalwyr a oedd wedi cael asesiad a arweiniodd at gynllun cymorth.

34.	Mae'r data a gasglwyd gan yr awdurdodau nad ymchwiliwyd iddynt yn rhoi darlun tebyg iawn. Roedd canran y gofalwyr lle aseswyd eu hanghenion yn 2023/2024, ar gyfartaledd, yn 2.73% yn y 18 awdurdod nad ymchwiliwyd iddynt a dim ond 1.32% o'r boblogaeth gofalwyr a gafodd asesiad a arweiniodd at gynllun cymorth. Mae'r graff isod yn dangos canran yr asesiadau gofalwyr a gwblhawyd yn 2023/2024 gan bob un o'r awdurdodau nad ymchwiliwyd iddynt.




Ffigur 1. Canran yr asesiadau gofalwyr yn 2023 -2024

35.	Rwyf yn cydnabod nad yw nifer yr asesiadau a gynhaliwyd yn adlewyrchu'r holl ofalwyr a fydd wedi cael gwybodaeth a chyngor ac sydd wedi cael cynnig ac wedi gwrthod asesiad. Nid yw ychwaith o bosibl yn cynnwys rhai lle'r oedd eu hasesiad wedi'i gyfuno ag un yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Nodaf, er enghraifft, fod **Cyngor Sir Fynwy**

am ddangos mai un elfen yn unig o'r cymorth sydd ar gael yw asesiadau o anghenion gofalwyr. Dywedodd fod trafodaethau anffurfiol, fel mewn digwyddiadau ar gyfer gofalwyr, yn gallu arwain at ymatebion a chyfeirio ar unwaith, sydd yr un mor effeithiol i helpu gofalwyr di-dâl. Tynnodd **Cyngor Gwynedd** a **Chyngor Sir Powys** sylw hefyd at y cymorth a ddarperir gan eu darparwyr a gomisiynir ar gyfer gofalwyr di-dâl. Mae hyn yn cynnwys hybu ymyriadau cynnar ac y gall hynny olygu na fydd angen am wasanaethau statudol. Fodd bynnag, mae'n debygol o hyd y bydd gofalwyr yn yr awdurdodau nad ymchwiliwyd iddynt nad ydynt yn ymwybodol o'u hawliau nac o'r cymorth sydd ar gael iddynt.

36. Roeddwn yn falch bod rhai o'r awdurdodau nad ymchwiliwyd iddynt wedi dewis rhannu cynlluniau gweithredu neu sylwadau â fy swyddfa yn ymwneud â sut yr oeddent wedi gweithredu fy argymhellion. Er enghraifft, dywedodd **Cyngor Abertawe** ei fod wedi sefydlu gweithgor i roi'r pwyntiau dysgu ar waith i wella'r ddarpariaeth yn lleol. Dywedodd hefyd ei fod yn chwarae rhan weithredol yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i Ofalwyr a fyddai'n adolygu'r canfyddiadau i hybu trafodaethau Cymru Gyfan ar welliannau i asesiadau o anghenion gofalwyr ledled Cymru. Tynnodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** sylw at y gwaith roedd yn ei wneud eisoes i sefydlu grŵp i lunio cynllun gweithredu i roi sylw i bob agwedd a'i fod yn ystyried ei lenyddiaeth ac arferion gwaith cyfredol i weld lle gellid gwneud gwelliannau. Dywedodd y byddai hefyd yn edrych ar enghreifftiau eraill o arferion gorau i ddysgu yn eu sgil. O ganlyniad, mae hefyd wedi lansio Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a dywedodd fod y niferoedd sy'n manteisio ar y cynnig o

asesiadau o anghenion gofalwyr wedi dyblu yn y flwyddyn 2024/2025.

37. Dywedodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** ei fod wedi ystyried yr argymhellion ac wedi cyflwyno manylion ar sut yr oedd yn cyflawni'r rhan fwyaf ohonynt eisoes. Dywedodd nad oedd ganddo daflen ffeithiau i'w rhannu ag oedolion sy'n ofalwyr, ond y byddai'n mynd ati i ddatblygu un. Cafwyd manylion gan **Gyngor Caerdydd** am waith yr oedd yn ei wneud eisoes â gofalwyr di-dâl a chamau i'w gweithredu o ganlyniad i'r argymhellion. Roedd hyn yn cynnwys newid ei ffurflen asesu i gydymffurfio â'r argymhellion a wnaed, ynghyd â chyflwyno hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff, a bod hwn yn y broses o gael ei ddatblygu. Roedd hefyd am weithio â chydweithwyr iechyd rhanbarthol i ddatblygu adnoddau iechyd meddwl i gynorthwyo gofalwyr di-dâl ac y byddai hefyd yn parhau i weithio ag arweinyddion fferyllfeydd cymunedol i ehangu rhwydweithiau cyfathrebu a gwella cyfleoedd cyfeirio i ofalwyr di-dâl.

38. Cydnabu **Cyngor Sir Ddinbych** fod cyrraedd gofalwyr nad oedd o reidrwydd yn gweld eu hunain fel gofalwyr neu sy'n wynebu rhwystrau wrth geisio cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn flaenoriaeth. Roedd hyn yn cynnwys cymunedau anodd eu cyrraedd, cymunedau lle nad yw Saesneg yn iaith gyntaf, cymunedau gwledig, rhieni plant sy'n niwrowahanol neu ag anabledd dysgu, a gofalwyr pobl sy'n camddefnyddio sylweddau. Dywedodd fod ganddo Fforymau Cymheiriaid i Ofalwyr sy'n helpu i archwilio'r cynnydd a wnaed, canfod meysydd i'w datblygu yn y dyfodol ac i hybu hawliau gofalwyr.

39. Roedd **Cyngor Bro Morgannwg** wedi nodi camau i gyflawni'r argymhellion yr oedd yn teimlo nad oedd yn eu cyflawni eisoes. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau taflen ffeithiau, a oedd eisoes yn cael ei datblygu, ynghyd â fersiwn Hawdd ei Darllen, a chreu templed i ganiatáu adborth yn dilyn asesiad, i sicrhau ei fod yn cael ei roi mewn ffordd gyson. Roedd adolygiad polisi o Daliadau Uniongyrchol hefyd yn cael ei gynnal, a byddai "archwiliad dwfn" blynyddol o asesiadau o anghenion gofalwyr hefyd yn cael ei roi ar waith, ynghyd â'r archwiliad misol presennol sy'n digwydd eisoes. Cadarnhaodd hefyd ei fod yn codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl ymhlith 3 chlwstwr o Feddygon Teulu.

40. Roedd rhai o'r awdurdodau nad ymchwiliwyd iddynt yn gallu dangos data cydraddoldeb, ond ni allai eraill wneud hynny. Yn sgil y gofynion a wnaed gan Lywodraeth Cymru, dylai hyn helpu i sicrhau bod yr holl awdurdodau lleol yn cofnodi data cydraddoldeb y gellid ei ddefnyddio i helpu i ganfod grwpiau o ofalwyr nad ydynt yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd.

41. Mewn ymateb i'r adroddiad ymchwilio, roeddwn yn falch o gael sylwadau gan **Gofal Cymdeithasol Cymru.** Dywedodd ei fod wedi gweithio ag elusennau cenedlaethol i ddatblygu adnoddau i helpu ag asesiadau gofalwyr ac y byddai'n defnyddio canfyddiadau'r ymchwiliad wrth gydweithredu â phartneriaid.

42. Cyfeiriodd **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** at fy nghanfyddiadau yn ei adroddiad diweddar ar brofiadau heneiddio yng Nghymru[2]. Dangosodd

[2] Adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: Heneiddio yng Nghymru: cipolwg ar brofiadau pobl hŷn

yr adroddiad fod cyfran sylweddol o ofalwyr di-dâl Cymru'n bobl hŷn. Roedd yn cyfeirio at y rhwystrau mae gofalwyr di-dâl yn eu hwynebu wrth geisio cael asesiadau i ganfod y cymorth, y gwasanaethau a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gynnal eu llesiant pan fyddant yn darparu gofal, gan nodi bod oedi o'r fath yn gallu achosi canlyniadau difrifol i iechyd ac ansawdd bywyd pobl hŷn. Dywedodd fod angen gwella'n sylweddol y cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl yn y dyfodol.

43. Roeddwn yn falch hefyd o weld cyfeiriad at yr adroddiad ymchwilio mewn dadl yn y Senedd[3] ar Fil arfaethedig ar gymorth i ofalwyr di-dâl, ym mis Chwefror 2025. Dywedodd Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru fod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i hybu llesiant gofalwyr ac i asesu angen gofalwyr am gymorth. Mae gwaith wedi'i wneud gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl ers cyhoeddi adolygiad cyflym ADSS Cymru ar hawliau gofalwyr yn 2023[4]. Gofynnwyd i bob awdurdod lleol i gwblhau hunanasesiad o'u gwasanaethau i ofalwyr, a gwblhawyd yn 2024, ac roedd cyfarfodydd â gofalwyr di-dâl i gael eu cynnal i ddeall eu syniad hwy o arferion gorau. Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal â Phenaethiaid Gwasanaethau Plant ac Oedolion. Mae disgwyl cyhoeddi'r cynllun gweithredu a ddeilliodd o hynny ym mis Mawrth 2026. Hefyd, mae'r Gweinidog wedi cymeradwyo cyllid ychwanegol o £47,000 i ddarparu cymorth rheoli prosiectau a datblygu adnoddau a deunyddiau. Mae'r Gweinidog hefyd wedi ysgrifennu at arweinyddion y Cynghorau i gyd i bwysleisio pwysigrwydd y gwaith hwn ac i sicrhau bod yr holl

[3] Dadl yn y Senedd ar 5 Chwefror 2025

[4] Adolygiad cyflym ADSS Cymru ar hawliau gofalwyr 2023

awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol tuag at ofalwyr di-dâl.

44. Roedd yr adroddiad ymchwilio'n rhestru'r camau mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd eisoes yn achos gofalwyr di-dâl. Cyhoeddodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ddatganiad ym mis Mehefin 2025 a oedd yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud yn sgil y gofal maent yn ei ddarparu i'w teuluoedd a'u ffrindiau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Cyflawni Gofalwyr Di-dâl ar gyfer 2025 – 2026[5], a ddatblygwyd i weithredu'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, 2021. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd wedi cymeradwyo datblygu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl newydd, a fydd ar gael fel ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ionawr 2026.

45. Ym mis Chwefror 2025, cadarnhaodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol fod Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid o £5.25 miliwn drwy'r Cynllun Seibiannau Byr a'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr, i helpu gofalwyr di-dâl i gael seibiant oddi wrth eu cyfrifoldebau gofal ac i gael cymorth ariannol tuag at eitemau hanfodol. Cafwyd cydnabyddiaeth fod bron hanner y gofalwyr di-dâl sydd wedi defnyddio'r cynlluniau yn y 3 blynedd diwethaf yn anhysbys i wasanaethau cyn hynny a bod y cynlluniau felly'n dangos y gwerth ychwanegol sylweddol fel porth i fathau eraill o gymorth. Hefyd, ym mis Tachwedd 2025, cyhoeddodd y Gweinidog gyllid pellach o £15.75 miliwn am 3 blynedd tan ddiwedd mis Mawrth 2029.

[5] Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl 2025 i 2026

46. Yn fwy diweddar, roeddwn yn falch hefyd o weld cyfeiriad at yr adroddiad ymchwilio yn ystod dadl yn y Senedd ar wasanaeth gofal cenedlaethol i Gymru[6], ar 5 Tachwedd 2025. Nodwyd yr heriau mae gofalwyr di-dâl yn eu profi, gan gynnwys caledi ariannol, diffyg cymorth a seibiannau ac asesiadau o anghenion sy’n cael eu darparu mewn ffordd anghyson.

47. Cafodd canfyddiadau arolwg Cyflwr Gofalu 2025 Gofalwyr Cymru[7], hefyd eu rhyddhau ddechrau mis Tachwedd 2025. Dangosodd fod llawer o ofalwyr di-dâl yn parhau i brofi canlyniadau negyddol oherwydd eu rolau fel gofalwyr, gan gynnwys o ran eu hiechyd corfforol a meddyliol, eu gyrfaoedd a’u cyllid. Fel rhan o’u hargymhellion, mae’n galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i gyflwyno Cynllun Gweithredu a Chyflawni ar gyfer gofalwyr di-dâl a ddylai, ymhlith pethau eraill, ddefnyddio a rhoi sylw i ganfyddiadau fy ymchwiliad. Mae’n gwneud nifer o argymhellion eraill, gan gynnwys sicrhau lefelau sylfaenol cyson o gymorth ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru, cynllun ar gyfer ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar raddfa fawr i sicrhau bod gofalwyr yn ymwybodol o’u hawliau, gwella cyllid, darparu adnoddau digonol i awdurdodau lleol, trefnu hyfforddiant priodol i staff mewn gwasanaethau statudol, a mynd at i ddileu’r rhwystrau sy’n atal gofalwyr di-dâl rhag cael cymorth.

48. Mae’n amlwg, felly, bod cymorth i ofalwyr di-dâl yn faes sy’n cael sylw yng Nghymru, ac rwyf yn falch o weld bod y gwaith i ddatblygu gwasanaethau a’r cymorth sydd ar gael yn parhau.

---

[6] Dadl yn y Senedd ar 5 Tachwedd 2025
[7] Arolwg Cyflwr Gofalu Gofal Cymru

## Sylwadau ar yr adroddiad drafft

49. Mewn ymateb i'r adroddiad drafft, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei fod yn parhau'n awyddus i weithredu'r newidiadau i'w ffurflen asesu ar gyfer gofalwyr ifanc ar lefel Gwent gyfan. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes dyddiad gweithredu pendant. Felly, yn y cyfamser, roedd wedi diweddaru a defnyddio ei ffurflen asesu gofalwyr ifanc ei hun yn unol ag argymhellion yr ymchwiliad. Yn achos yr argymhelliad a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ofyn yn benodol a oedd y gofalwyr yn barod ac yn alluog i barhau yn eu rôl fel gofalwyr, dywedodd ei fod wedi addasu'r iaith ar gyfer gofalwyr ifanc. Dywedodd y byddai'r cwestiwn hwn yn cael ei ofyn gan yr ymarferydd yn ystod y sgwrs â'r person ifanc wrth holi am deimladau'r gofalwr ifanc am ofalu, dewis mewn gofalu, a'r hyn roeddent yn medru ei wneud ac yn analluog i'w wneud. Rwyf yn sylweddoli bod y Cyngor am sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn briodol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod yr Ymarferwr sy'n cynnal yr asesiad yn deall diben y cwestiynau am deimladau a dewisiadau a'r angen i ganfod a yw'r gofalwr ifanc yn barod ac yn alluog i gyflawni eu rôl.

50. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion ei fod wedi ymrwymo o hyd i gyflawni'r argymhellion sydd heb eu gweithredu. Dywedodd y byddai ffurflenni newydd yn cael eu hintegreiddio i'r system newydd, ac er na fydd yr amserlenni o bosibl yn cyd-fynd â'r rhai a nodwyd yn yr adroddiad, roedd yn flaenoriaeth o hyd i wneud y gwelliannau a nodwyd gan fy ymchwiliad.

51. Dywedodd Cyngor Sir y Fflint y byddai ychwanegu crynodeb o'r asesiad at y llythyr eglurhaol yn broses na ellid ei hawtomeiddio. Roedd yn teimlo y byddai hyn yn arwain at ddyblygu diangen, gan fod yr asesiad llawn yn dod gyda'r llythyr. Dywedodd ei fod yn credu y byddai'n well pe bai ei adnoddau'n cael eu cyfeirio at gwblhau mwy o asesiadau a darparu mwy o gymorth i ofalwyr. Fodd bynnag, dywedodd y byddai'n ymdrechu i gynnwys y crynodeb yn y dyfodol, pan fydd ei system newydd yn weithredol, ac y bydd yn creu cyfleoedd gwell i awtomeiddio prosesau a gwella effeithlonrwydd. Dywedodd y gobeithir y bydd y system newydd yn cael ei rhoi ar waith ym mis Tachwedd 2026.

52. Ni chafwyd sylwadau gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot mewn ymateb i'r adroddiad drafft.

## Casgliadau

53. Nid oes amheuaeth nad yw gofalwyr di-dâl yn parhau i chwarae rôl hanfodol drwy gynorthwyo rhai o aelodau mwyaf agored i niwed ein cymdeithas a'u bod yn holl bwysig i gynnal Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

54. Rwyf yn croesawu ac yn canmol y ffaith bod yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt wedi cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed yn fy adroddiad ymchwilio. Bydd y camau a gymerwyd wedi helpu i ganfod gofalwyr, a sut mae gofalwyr yn cael gwybod am, ac yn deall eu hawliau a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Bydd y camau a gymerwyd hefyd wedi helpu i sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rolau, boed hynny'n asesu gofalwyr yn

uniongyrchol neu'n eu cyfeirio at y tîm neu'r gwasanaeth priodol. Bydd gwelliannau mewn monitro ac archwilio asesiadau o anghenion gofalwyr hefyd yn helpu i sicrhau bod pwyntiau dysgu'n cael eu hystyried, ynghyd ag arferion gorau.

55. Cytunodd pob un o'r Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt i weithredu, a hynny o fewn 6 mis, yr argymhellion a wnaed yn dilyn yr adroddiad ymchwilio. Mae wedi cymryd llawer mwy na 6 mis i weithio â hwy i gael gwybodaeth ddigonol i weld eu bod wedi gweithredu'r argymhellion. Rwyf yn sylweddoli bod digwyddiadau fel oedi i gyflwyno systemau TG rheoli achosion newydd neu ymgynghoriadau ar lefelau rhanbarthol wedi effeithio ar y gwaith o weithredu ar rai o'r argymhellion, a bod y gwaith hwnnw'n parhau. Fodd bynnag, roedd yn siomedig bod Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ceredigion wedi dewis peidio â gweithredu'n llawn yr argymhellion yn gysylltiedig â'r llythyr eglurhaol sy'n cyd-fynd â'r ffurflen asesu. Bwriad yr argymhelliad oedd sicrhau bod gofalwyr, ar ôl i'w hanghenion gael eu hasesu, yn deall canlyniad(au) eu hasesiad ac yn ymwybodol o drefniadau adolygu a sut i ofyn am ailasesiad neu adolygiad. Rwyf yn pwyso ar y cyrff hyn i weithredu'r argymhellion sydd heb eu gweithredu'n llawn ac mae gennyf ragor o argymhellion i'r cyrff hyn, fel y gwelir ym mharagraff 59. Rwyf yn bryderus hefyd nad oes gan Gyngor Sir Ceredigion ffurflen asesu anghenion gofalwyr sy'n cydymffurfio â fy argymhelliad, gan fod hyn yn hanfodol i'r broses asesu gofalwyr. Gyda golwg ar y canfyddiadau hyn, rwyf wedi gwneud argymhelliad arall sef y dylai'r adroddiad hwn gael ei rannu â phwyllgor Archwilio a Risg pob un o'r awdurdodau hyn, sydd i fod i oruchwylio cydymffurfiad â'r argymhellion hyn.

56. Yn dilyn ei Adolygiad Ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019, argymhellodd Pwyllgor Cyllid y Senedd fod fy swyddfa, fel mater o egwyddor, yn rhannu fy adroddiadau ymchwilio ar ei liwt ei hun ag awdurdodau heblaw'r rhai hynny sy'n destun unrhyw ymchwiliad, ac yn eu hannog i weithredu unrhyw argymhellion.[8] Dyma fu ein harfer ers i'r pŵer ymchwilio ar ei liwt ei hun ddod i rym – a byddwn yn parhau i wneud hynny, yn unol ag argymhelliad Pwyllgor y Senedd, i sicrhau bod dysgu sector cyfan a gwelliannau yn deillio o unrhyw ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a gynhelir gennym.

57. O ystyried y ganran o asesiadau gofalwyr a gynhaliwyd yn y 18 awdurdod nad ymchwiliwyd iddynt arall, roeddwn yn falch o gael, ac yn croesawu, sylwadau gan 8 o'r awdurdodau hyn, yn nodi sut yr oeddent wedi ystyried canfyddiadau'r ymchwiliad ac wedi nodi gwelliannau gwasanaeth posibl i'r modd yr oedd asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu gweinyddu. Rwyf yn gobeithio bod yr holl awdurdodau nad ymchwiliwyd iddynt wedi manteisio ar y cyfle i weithredu ar unrhyw bwyntiau dysgu perthnasol i wella eu gwasanaethau, ac os nad ydynt wedi gwneud hynny, rwyf yn eu hannog i weithredu.

58. Rwyf yn cwblhau'r gwaith dilynol i'r modd y mae asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu gweinyddu drwy gyhoeddi'r adroddiad hwn. Mae wedi bod yn braf gweld tystiolaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt a rhai o'r awdurdodau nad ymchwiliwyd iddynt. Rwyf yn annog pob un o'r 22 awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru i ddal ati i ymdrechu i wella ac i

[8] Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

rannu arferion da o ran canfod a chynorthwyo gofalwyr di-dâl yn y rolau anodd yn aml maent yn ymgymryd â hwy i helpu eu hanwyliaid.

## Argymhellion pellach

59. Rwyf yn argymell bod yr holl Awdurdodau yr Ymchwiliwyd Iddynt, a nodir isod, yn gweithredu'r argymhellion canlynol:

| | Cymwys i: | Argymhelliad: |
|---|---|---|
| a) | Cyngor Sir Ceredigion | Newid y ffurflenni asesu anghenion gofalwyr i:<br>i. Cynnwys a yw'r unigolyn sy'n derbyn gofal wedi bod yn gysylltiedig/yr ymgynghorwyd â hwy ac, os na, pam.<br>ii. Rhoi sylw penodol a chofnodi'r cwestiwn i ba raddau mae'r gofalwr yn alluog ac yn barod i ddarparu gofal.<br>iii. Rhoi sylw penodol a chofnodi'r cwestiynau a yw'r gofalwr yn gweithio, yn dymuno gweithio ac a ydynt yn cymryd rhan, neu'n dymuno cymryd rhan, mewn addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden, oni bai bod yr ystyriaethau hyn yn amherthnasol, ac os mai dyna'r achos dylid cofnodi'r rheswm pam. |

| | | |
|---|---|---|
| | | iv. Cynnwys a yw'r gofalwr wedi cael cynnig copi o'u hasesiad gyda'r ymateb wedi'i gofnodi.<br>v. Cynnwys a yw'r gofalwyr yn fodlon â'r broses asesu a'r canlyniadau a nodwyd i ddiwallu eu hanghenion ac a ydynt yn fodlon a fydd y canlyniadau a nodwyd, ar yr adeg honno, yn diwallu eu hanghenion yn llawn, yn galluogi eu sylwadau, ac unrhyw anghytundeb, neu lle nad yw anghenion yn cael eu diwallu, i gael eu cofnodi. |
| b) | Cyngor Sir Ceredigion<br><br>Cyngor Sir y Fflint | Sicrhau bod ganddynt lythyr templed pan fyddant yn rhannu'r asesiad a gwblhawyd â'r gofalwr, sy'n cynnwys amlinelliad o'r asesiad ac eglurhad o'r trefniadau adolygu (neu ddim) a sut y gall gofalwyr gysylltu i ofyn am adolygiad neu ailasesiad. |
| c) | Cyngor Sir Ceredigion<br><br>Cyngor Sir y Fflint | Dylai'r adroddiad terfynol gael ei rannu â, a dylai cydymffurfiaeth â'r argymhellion hyn gael ei oruchwylio gan, bwyllgor Archwilio a Risg yr awdurdod. Dylai'r pwyllgor Archwilio a Risg baratoi diweddariad i'r swyddfa ar ôl 6 mis ac 1 flwyddyn, o ddyddiad yr adroddiad hwn. |

60. Rwyf yn falch o nodi, wrth gynnig sylwadau ar y drafft o'r adroddiad hwn, fod Sir Ceredigion a Chyngor Sir y Fflint wedi cytuno i weithredu'r argymhellion hyn.

| | |
|---|---|
| Michelle Morris | 18 Chwefror 2026 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus I | |
| Public Services Ombudsman | |

# Atodiad 1

## Data gan yr awdurdodau nad ymchwiliwyd iddynt

61. Cymerwyd data poblogaeth o gyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a amcangyfrifodd y boblogaeth ar gyfer pob ardal[9] a chanran y gofalwyr (dros 5 oed)[10].

### Tabl 1 – Data poblogaeth o Gyfrifiad 2021

| Awdurdod Lleol | Amcangyfrif o boblogaeth | Canran y gofalwyr (dros 5) yn y boblogaeth | Amcangyfrif o nifer y gofalwyr yn y boblogaeth |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 66,900 | 11.3% | 7,560 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 145,500 | 11.0% | 16,005 |
| Caerdydd | 362,400 | 9.4% | 34,066 |
| Sir Gaerfyrddin | 187,900 | 11.1% | 20,857 |
| Conwy | 114,800 | 10.2% | 11,710 |
| Sir Ddinbych | 95,800 | 11.0% | 10,538 |
| Gwynedd | 117,400 | 8.9% | 10,449 |
| Ynys Môn | 68,900 | 9.9% | 6,821 |
| Merthyr Tudful | 58,800 | 11.3% | 6,644 |
| Sir Fynwy | 93,000 | 9.7% | 9,021 |
| Casnewydd | 159,600 | 10.3% | 16,439 |
| Sir Benfro | 123,400 | 10.7% | 13,204 |
| Powys | 133,200 | 10.0% | 13,320 |

[9] Amcangyfrifon o boblogaeth ac aelwydydd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021
[10] Gofal di-dâl, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | 237,700 | 11.2% | 26,622 |
| Abertawe | 238,500 | 11.1% | 26,474 |
| Torfaen | 92,300 | 11.4% | 10,522 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 131,800 | 10.2% | 13,444 |
| Wrecsam | 135,100 | 10.0% | 13,510 |

62. Darparodd yr awdurdodau nad ymchwiliwyd iddynt ddata yn ymwneud â nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc yn 2021/2022, 2022/2023 a 2023/2024, gan gynnwys nifer yr asesiadau a arweiniodd at gynllun cymorth. Dangosir y data hwn yn Nhablau 2 – 19.

## Tabl 2 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 302 | 130 | 85 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 75 | 35 | 18 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 24.83% | 26.92% | 21.18% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | * | 143 | 74 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | * | 11 | 66 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | | 7.69% | 89.19% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | | 273 | 159 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | | 3.61% | 2.10% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | | 46 | 84 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | | 0.61% | 1.11% |

* Nid oedd data ar ofalwyr ifanc ar gael ar gyfer 2021/2022

## Tabl 3 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 140 | 203 | 169 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 25 | 16 | 21 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 17.86% | 7.88% | 12.43% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 68 | 111 | 94 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 1 | 0 | 0 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 1.47% | 0% | 0% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 208 | 314 | 263 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 1.30% | 1.96% | 1.64% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 26 | 16 | 21 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 0.16% | 0.10% | 0.13% |

## Tabl 4 – Cyngor Caerdydd

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 559 | 609 | 473 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 1 | 0 | 1 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 0.18% | 0% | 0.21% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 55 | 94 | 74 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 2 | 7 | 5 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 3.64% | 7.45% | 6.76% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 614 | 703 | 547 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 1.80% | 2.06% | 1.61% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 3 | 7 | 6 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 0.01% | 0.02% | 0.02% |

## Tabl 5 - Cyngor Sir Caerfyrddin

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 913 | 552 | 935 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 523 | 127 | 129 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 57.28% | 23.01% | 13.80% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 56 | 40 | 72 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 30 | 21 | 27 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 53.57% | 52.50% | 37.50% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 969 | 592 | 1007 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 4.65% | 2.84% | 4.83% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 553 | 148 | 156 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 2.65% | 0.71% | 0.75% |

## Table 6 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 291 | 323 | 264 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 177 | 162 | 141 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 60.82% | 50.15% | 53.41% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | * | * | 38** |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | * | * | 35 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | | | 92.11% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | | | 302 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | | | 2.58% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | | | 176 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | | | 1.50% |

* Nid oedd data ar ofalwyr ifanc ar gyfer 2021/2022 a 2022/2023 ar gael.

** Yn ogystal, roedd 44 o adolygiadau ar gyfer gofalwyr presennol yn y cyfnod hwn.

## Tabl 7 – Cyngor Gwynedd

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 224 | 210 | 263 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 152 | 158 | 197 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 67.86% | 75.24% | 74.90% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 50 | 45 | 69 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 38 | 34 | 34 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 76.00% | 75.56% | 49.28% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 274 | 255 | 332 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 2.62% | 2.44% | 3.18% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 190 | 192 | 231 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 1.82% | 1.84% | 2.21% |

## Tabl 8 – Cyngor Sir Dinbych

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 390 | 401 | 370 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 294 | 307 | 339 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 75.38% | 76.56% | 91.62% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 114 | 103 | 60 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 114 | 101 | 45 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 100.00% | 98.06% | 75.00% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 504 | 504 | 430 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 4.78% | 4.78% | 4.08% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 408 | 408 | 384 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 3.87% | 3.87% | 3.64% |

## Tabl 9 – Cyngor Sir Ynys Môn

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 442 | 499 | 497 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 372 | 367 | 342 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 84.16% | 73.55% | 68.81% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 43 | 57 | 82 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 22 | 28 | 50 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 51.16% | 49.12% | 60.98% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 485 | 556 | 579 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 7.11% | 8.15% | 8.49% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 394 | 395 | 392 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 5.78% | 5.79% | 5.75% |

## Tabl 10 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023 /2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 35 | 28 | 31 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 6 | 6 | 7 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 17.14% | 21.43% | 22.58% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 29 | 36 | 36 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 29 | 36 | 36 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 100% | 100% | 100% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 64 | 64 | 67 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 0.96% | 0.96% | 1.01% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 35 | 42 | 43 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 0.53% | 0.63% | 0.65% |

## Tabl 11 – Cyngor Sir Fynwy

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 196 | 192 | 147 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 48 | 58 | 34 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 24.49% | 30.21% | 23.13% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 40 | 29 | 16 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc* | 18 | 10 | 12 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 45.00% | 34.48% | 75.00% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 236 | 221 | 163 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr* | 2.62% | 2.45% | 1.81% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 66 | 68 | 46 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 0.73% | 0.75% | 0.51% |

***** Amlygodd Cyngor Sir Fynwy fod y ffigurau hyn yn cynrychioli nifer yr asesiadau o ofalwyr / gofalwyr ifanc a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, lle'r oedd y canlyniad yn dangos y gellid diwallu'r anghenion drwy gynllun cymorth i ofalwyr neu gynllun gofal a chymorth.

## Tabl 12 – Cyngor Dinas Casnewydd

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 221 | 253 | 227 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 28 | 71 | 50 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 12.67% | 28.06% | 22.03% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 82 | 77 | 66 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 82 | 77 | 66 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 100% | 100% | 100% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 303 | 330 | 293 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 1.84% | 2.01% | 1.78% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 110 | 148 | 116 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 0.67% | 0.90% | 0.71% |

## Tabl 13 – Cyngor Sir Penfro

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 165 | 375 | 546 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 128 | 316 | 451 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 77.58% | 84.27% | 82.60% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 30 | 131 | 110 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 30 | 131 | 110 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 100% | 100% | 100% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 195 | 506 | 656 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 1.48% | 3.83% | 4.97% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 158 | 447 | 561 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 1.20% | 3.39% | 4.25% |

## Tabl 14 – Cyngor Sir Powys

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 293 | 318 | 311 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 120 | 114 | 98 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 40.96% | 35.85% | 31.51% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 16 | 22 | 12 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 15 | 6 | 4 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 93.75% | 27.27% | 33.33% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 309 | 340 | 323 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 2.32% | 2.55% | 2.42% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 135 | 120 | 102 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 1.01% | 0.90% | 0.77% |

## Tabl 15 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 481 | 301 | 246 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 109 | 63 | 77 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 22.66% | 20.93% | 31.30% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 87 | 121 | 124 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 74 | 77 | 83 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 85.06% | 63.64% | 66.94% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 568 | 422 | 370 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 2.13% | 1.59% | 1.39% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 183 | 140 | 160 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 0.69% | 0.53% | 0.60% |

## Tabl 16 – Cyngor Abertawe

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 348 | 608 | 482 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 225 | 341 | 290 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 64.66% | 56.09% | 60.17% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 23 | 27 | 31 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 0 | 0 | 0 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 0% | 0% | 0% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 371 | 635 | 513 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 1.40% | 2.40% | 1.94% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 225 | 341 | 290 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 0.85% | 1.29% | 1.10% |

*Dywedodd Cyngor Abertawe ei fod hefyd yn defnyddio sefydliad trydydd sector i wneud asesiadau cymesur.

## Tabl 17 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 128 | 130 | 150 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion* | 20 | 12 | 25 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 15.63% | 9.23% | 16.67% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 116 | 102 | 71 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 97 | 55 | 45 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 83.62% | 53.92% | 63.38% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 244 | 232 | 221 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 2.32% | 2.20% | 2.10% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 117 | 67 | 70 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 1.11% | 0.64% | 0.67% |

* Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen nad yw'r ffigur hwn yn cynnwys y gofalwyr hynny y cofnodwyd eu gwasanaethau mewn cynllun cymorth ar gyfer y person sy'n derbyn gofal.

## Tabl 18 – Cyngor Bro Morgannwg

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 215 | 173 | 280 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 23 | 40 | 125 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 10.70% | 23.12% | 44.64 % |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 9 | 0 | 54 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 1 | 0 | 33 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 11.11% | Ddim yn berthnaso l | 61.11% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 224 | 173 | 334 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 1.67% | 1.29% | 2.48% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 24 | 40 | 158 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 0.18% | 0.30% | 1.18% |

## Tabl 19 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

| | 2021/ 2022 | 2022/ 2023 | 2023/ 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion | 612 | 537 | 698 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion | 445 | 474 | 493 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer oedolion a arweiniodd at gynllun cymorth | 72.71% | 88.27% | 70.63% |
| | | | |
| Nifer yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc | 123 | 110 | 51 |
| Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc | 122 | 107 | 40 |
| Canran yr asesiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a arweiniodd at gynllun cymorth | 99.19% | 97.27% | 78.43% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 735 | 647 | 749 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 5.44% | 4.79% | 5.54% |
| | | | |
| Cyfanswm nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer oedolion a gofalwyr ifanc | 567 | 581 | 533 |
| Cyfanswm y nifer fel canran o'r boblogaeth o ofalwyr | 4.20% | 4.30% | 3.95% |

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203